

COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED BRO CERNYW
7:30YH 26^{AIN} HYDREF 2022
CYNHALIWDY YNG NGWYTHERRIN

1 CROESO AC YMDDIHEURIADAU

1.1 Croesawyd bawb gan Clwyd Roberts (CR)

Presennol: R. Emlyn Williams (REW), Ann Vaughan (AV), Myrddin Davies (MGD), Diane Roberts (DR), Jane Roberts (JR), Einir Williams (EW) & Austin Roberts (AR) & Mark Davies (MD)

1.2 Ymddiheuriadau: Gwydion Jones (GJ)

CR heb glywed gan Sara Thomas.

2 aelod o'r cyhoedd yn bresennol.

2 DATGANIAD DIDDORDEB

Dim datganiad.

3 COFNODION I'W GWIRO 28^{AIN} MEDI 2022

Cynnigwyd yn gywir gan AV ac eilwyd gan MGD yn dilyn cywiriadau.

4 MATERION YN CODI

Gofynnodd DR os oedd diweddariad ynglyn â'r goleuadau yn fflachio, CR heb glywed ymhellach gan y Cyngor Sir.

AV yn gofyn am y cynllun hyfforddiant a fod sesiwn hyfforddiant côd ymddygiad yn cael ei gynnal yfory. DR yn adrodd y bydd mwy o sesiynau yn cael eu cynnal yn fuan a bod disgwyliad fod pob cynghorydd yn mynychu'r cwrs côd ymddygiad. Gofynnodd EW os oedd angen gwneud cynllun yn datgan pa gyrsiau fydd yn cael eu mynychu, a cododd hefyd y buasai'n syniad rhestru'r cyrsiau mae cynghorwyr wedi fynychu'n ystod y blynyddoedd diwethaf. Rhestr o'r cyrsiau angen bod ar y wefan erbyn 10^{fed} Tachwedd. DR wedi gofyn am dempled ac adrodd fod angen i bob cyngor gael dogfen adroddiad blynyddol eu hunain. DR wedi cael copi o adroddiad cyngor arall er gwybodaeth. Trafodaeth y buasai hwn yn gallu ei ddefnyddio a'i addasu i greu un ar gyfer Cyngor Bro Cernyw. Wedi cael copi drafft o gynllun hefyd. DR wedi cael gwybod fod posibl rhoi hysbyseb ar gyfer y swydd clercc ar wefan Un Llais ac y buasai'n aros yno tan i'r swydd ei llenwi. Angen gwneud ymgyrch ehangach i hysbysu'r swydd.

Adroddodd fod sawl cyngor arall yn yr un sefyllfa yn cael trafferth i gael clercc. Gofynion clercc yn faith.

AR yn codi fod clercc wedi ymgymryd â gwaith sawl cyngor cymuned ond fod wedi torri'n ôl oherwydd y pwysau gwaith. Adroddodd fod awdit wedi newid a fod y gofyniadau yn ddwys.

AV wedi cael cadarnhad fod y coed gan Woodland Trust ar eu ffordd.

Gofynnodd AV beth oedd wedi digwydd i'r sgip ym Mhandy Tudur. EW wedi cael cadarnhad fod 180kg o ailgylchu wedi ei gasglu ar 26^{ain} Gorffennaf 22.

EW yn rhoi diweddariad ynglyn â baw ci yn dilyn trafodaeth yn lleol yr wythnos diwethaf. Awgrym gan aelod o'r cyhoedd i'r Cyngor Cymuned ariannu dosbarthydd (*dispenser*) bagiau baw ci yn y pentrefi. Mater i'w drafod ymhellach yn y cyfarfod nesaf.

5 CEISIADAU CYNLLUNIO

5.1 0/50081 DR yn nodi fod y Cyngor Sir o blaid y cais. Cododd hefyd fod nodyn ar y cais cynllunio yma fod cais y Stag Yard wedi cael caniatad. Cadarnhaodd AR fod y cais wedi ei basio ond nad yw wedi bod drwy'r Pwyllgor Cynllunio. Rhywun lleol wedi ysgrifennu at y Cyngor Sir ac Aelodau Senedd Caerdydd i roi cwyn swyddogol am hyn a gofyn i Lywodraeth Cymru ymchwilio i'r mater. DR yn codi fod llawer o geisiau cynllunio gan bobl lleol yn cael eu gwrthod a buasai'n addas i'r Cyngor Cymuned holi ymhellach am hyn. I'w drafod yn ystod y cyfarfod nesaf. EW yn adrodd y dysai'r Cyngor fod yn hollol gefnogol i'r cais gan fod teulu ifanc lleol am ddod yn ôl i'w bro genedigol i fyw.

MD yn cyraedd y cyfarfod

Sylwadau cadarnhaol gan y cynghorwyr, pawb yn gytun i gymeradwyo'r cais.

5.2 0/50010 EW yn codi fod sawl cais ôl-weithredol wedi dod i law yn gorffennol a fod y cyngor wedi bod yn gefnogol. Gwaith wedi ei wneud ac yn fusnes lleol. Cefnogi, dim sylw.

5.3 0/50053 Adroddodd AR fod y cais yma eisioes wedi ei basio. Dim sylw.

6 MATERION CYNGOR

6.1 DR wedi cael tystysgrif yn dilyn mynychu'r cwrs côd ymddygiad yn ddiweddar, JR, AV & EW heb gael tystysgrif eto. Trafodaeth fod angen cadarnhad fod y cynghorwyr wedi mynychu cyrsiau.

Angen creu rhestr o'r cyrsiau sydd yn berthnasol i'r Cyngor Cymuned.

6.2 Cofnodion cyfarfod 25^{ain} Mai 2022 i gael eu newid i gynnwys 5 allan o'r 6 datganiad sydd bellach wedi ei derbyn gan aelodau'r cyhoedd (6^{ed} heb ei dderbyn gan y Cyngor). Cynnigiodd DR eu teipio a'u gyrru ymlaen i'w rhoi ar y wefan. DR i ofalu.

7 MATERION ARIANNOL

7.1 Trafododd DR y ffigyrau yn yr adroddiad yr oedd wedi ei pharatoi. Dim sylwad na cwestiwn, diolchwyd i DR am baratoi'r adroddiad. Cododd DR fod canmoliaeth fod y fynwent yn daclus iawn yn dilyn toriadau gwair diweddar.

8 GOHEBIAETH

8.1 CR wedi derbyn gohebiaeth ynglyn â goriad y bwrdd hysbysebu, Elwen Owen yn cofio fod y goriad wedi ei roi i rywun oedd yn ymwneud ac Amgueddfa Syr Henry Jones flynyddoedd yn ôl. MD am ymgymryd â'r gwaith o agor y drws. Diolchwyd i MD am ei waith efo'r canllaw yn y fynwent hefyd.

9 ADRODDIAD CYNGHORYDD SIR

- Wal yn y Stag Yard wedi disgyn, AR wedi cysylltu efo *Building Control* i ofyn os oeddynt wedi cysylltu efo'r perchennog. Cyngor wedi rhoi mesurau mewn lle i ddiogelu'r safle a rhoi amserlen i'r perchennog ymateb. Perchennog wedi gofyn am estyniad ar yr amser i gael gwneud ymholiad. Cyngor wedi cytuno i roi wythnos ychwanegol. Perchennog yn talu am y goleuadau.
- Cais newid melin wynt yn Bodrach wedi ei basio.
- Cais mast ffôn Merddyn wedi ei dynnu yn ôl oherwydd nad oedd cynllun orchuddio'r mast efo coed ayyb mewn lle.
- Rheolaeth traffig newydd o fewn y dyddiau nesaf - ffordd Tai i alluogi Dŵr Cymru i drwsio peipen rhwng 2^{il} -4^{ydd} Tachwedd a ffordd Hendre Fawr i alluogi BT i osod polion rhwng 7^{fed} - 9^{fed} Tachwedd.

- Wedi cysylltu efo Dylan Jones i ymholi ynglyn â'r goleuadau fflachio, heb gael ymateb i ebost dilynol.
- Canolfan a tŷ'r ysgol Gwytherin – wedi siarad efo Haf Jones yn y Cyngor Sir, canolbwyntio ar wneud gwellianau ar gyfer adeilad y ganolfan. Arian ar gael i wneud y gwaith. Wedi trefnu cyfarfod efo pwyllgor y ganolfan i drafod ymhellach yfory. Wedi cael sgwrs efo pennaeth adran lywodraethol y Cyngor Sir i ofyn os oedd modd atal y dreth ar y tŷ oherwydd ei fod yn wag. AR wedi siarad efo'r cyfarwyddwr cyllid, wedi cael addawiad y bydd trafodaeth efo'r adran drethi.
- Cyfarfod arbennig yfory i benodi prif weithredwr newydd. 3 ymgeisydd mewnol ond 2 fydd yn mynd gerbron y pwyllgor llawn - Rhun ap Ieuan a Jenny Williams.
- AR wedi mynychu ras chwiaid yn ddiweddar yn Gwytherin a wedi mwynhau'r diwrnod yn fawr.
- Ffordd Pandy bellach fel motorway! Bydd y ffordd yn cael ei marcio yn fuan. GJ wedi sôn wrth CR fod difrod wedi bod i'r bont, CR am ofyn wrth GJ ebostio AR ynglyn â hyn.
- EW yn Llangernyw y diwrnod y disgynodd y wal yn y Stag Yard a fod swyddogion y Cyngor Sir yno'n gyflym iawn. Adroddodd AR fod hyn yn fater diogelwch brys felly yn gweithredu'n syth.
- Gofynnodd REW i AR os oedd rhywun wedi sôn fod car wedi ei adael ger y ffordd at gyferiad Nebo. REW wedi hysbysu'r heddlu. AR am wneud ymholiadau. Diolchwyd i AR am ei waith a'i adroddiad.

10 BILIAU

- 10.1** Enlli – heb gael slip cyflog gan y cyfrifydd eto, am ei yrru ymlaen i'r Cynghorwyr unwaith y bydd ar gael. Cytunwyd i awdurdodi taliad unwaith y bydd y cyfrifydd wedi paratoi'r slip cyflog a chofnodi'r swm yn ystod y cyfarfod nesaf.
- 10.2** Un Llais wedi gyrru ebost yn atgoffa am anfoneb aelodaeth ar 1^{af} Medi ond neb wedi ei weld. £175, cytunwyd i dalu.
- 10.3** Dei Evans, torri glaswellt - £220. Wedi gwneud camgymeriad ar yr anfoneb diwethaf felly £50 ychwanegol ar yr anfoneb yma. Cytunwyd i dalu.
Gofynnodd AV os oedd Dei Evans am dorri'r mieri yn y fynwent yn Gwytherin, cadarnhaodd REW nad oedd Dei Evans wedi gwneud hyn a buasai angen gofyn am bris i wneud y gwaith ychwanegol, REW am ofyn am bris.
- 10.4** Pwyllgor Cymdeithasol Pandy Tudur am hurio'r festri – £40, cytunwyd i dalu.
- 10.5** Sgip Pandy Tudur 26/7/22 - £288, cytunwyd i dalu.
- 10.6** Atgoffodd DR fod dim anfoneb na adroddiad wedi dod i law gan BDO.

11 MATERION LLEOL

REW yn codi fod angen ail-baentio ciosg ffôn yn Gwytherin. Gofynnodd DR os y buasai'r gwaith yma'n gallu cael ei adael tan y gwanwyn. REW am wneud ymholiadau am brisiau. Gofynnodd CR am y ciosg yn Llangernyw, dal ym mherchnogaeth y cyngor cymuned.

AV yn codi'r mater am y llain blodau yn y fynwent, wedi cael cyswllt gan Iwan Edwards a gadael y safle fel ac y mae tan fis Gorffennaf a gwneud astudiad wedyn i weld. Pawb yn gytun.

Hwb cynnes yn cael ei sefydlu yn Eglwys Llangernyw yn sgil costau egni cynyddol, hwn yn estyniad ar y paned a sgwrs ar fore dydd Mawrth a bydd cawl ar gael wedyn. Cynllyn Cymorth Tanwydd Gaeaf - £200 ychwanegol i gael tuag at gostau tanwydd os oes rhywun ar fudd-daliadau. I'w roi yn hysbysfyrdau'r pentrefi ac ar y wefan.

Wedi dod o hyd i lun cynghorwyr o 2007/08.

Archfarchnad Morrisons yn rhoi pryd o fwyd am ddim i bobl sydd yn ei chael yn anodd yn ariannol ar hyn o bryd rhwng 26^{ain} Hydref – 6^{ed} Tachwedd.

MD wedi cael cwynion fod giat rhwystr wedi ei rhoi ar y gamfa sydd yn mynd drosodd i'r cae yn y Bont Faen tuag at Tyn y Caeau. Angen trwsio'r gamfa.

Bin baw cŵn wedi diflannu yn Glan Collen, AR wedi adrodd yn ystod y cyfarfod diwethaf fod angen ail osod bin, cadarnhawyd hyn. CR am basio'r ddau mater yma i AR.

DR rhywun wedi bod yn taflu wyau ar y waliau yn arhosfan bws Llangernyw. Golwg ar adeilad y Bridge hefyd. MD yn adrodd fod plant wedi eu dal ar dô yr Ysgol yn ddiweddar. MGD yn cynnig codi'r mater ym mhwyllgor nesaf llywodraethwyr yr ysgol, pawb yn gytun. MGD am ofyn os oes golau diogelwch ar yr adeilad hefyd.

Brics o dan y canllaw ger ramp allan o'r estyniad yn beryglus. Gofyn i dynnu'r ddwy fricsen, CR am holi pwyllgor y ganolfan.

MGD yn nodi fod damwain wedi bod fore dydd Sadwrn, car ar ei dô ar y ffordd o Llangernyw am gyfeiriad Llanfair TH. Gofyn os oes rhywbeth all y Cyngor Cymuned ei wneud i helpu gan fod sawl damwain wedi bod. EW yn cynnig sôn wrth AR am y mater. CR i ofalu.

EW yn codi ei bod ar bwyllgor *Local Action Group* (LAG) Conwy yn cynyrchioli amaeth, Cyngor Conwy wedi agor llyfrgell Llanrwst am oriau hirach bob dydd fel hwb cynnes. Ar fore Mercher mae slot penodol yn cynnig paned a byrbryd i drigolion. Sôn hefyd fod offer hel sbwriel ar gael gan y Cyngor Sir. JR yn cadarnhau fod rhai gan y gymuned yn barod, soniodd fod yr offer ar gael i bawb eu benthg a fod Merched y Wawr yn cynnal sesiynau hel sbwriel yn achlysurol.

12 CYFARFOD NESAF

23^{ain} Tachwedd 2022 ym Mhandy Tudur

Cyfarfod yn dod i ben 9:05pm

Cymerwyd y cofnodion gan Enlli Vaughan